DYSGU NID LLWGU

Papur Polisi, Tachwedd 2019

37 Ffordd Kingsmills
Wrecsam
LL13 8NH

01978 262588
tcc-wales.org.uk
office@tcc-wales.org.uk

@TCCWales

#DysguNidLlwgu
#StopSchoolHunger

Rhif elusen: 1086434
Rhif cwmni: 04033853

CRYNODEB

Heddiw yng Nghymru mae amddifadedd ac anghydraddoldeb yn bodoli, gyda llwgu a blinder bellach yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar grŵp sylweddol o blant ysgol uwchradd.

Canfu ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019 gan Brifysgol Loughborough, a gomisiynwyd gan yr End Child Poverty Network (yn cynnwys Plant yng Nghymru, Oxfam Cymru, Barnardo's Cymru ac Achub y Plant, ymhlith eraill) mai Cymru oedd yr unig genedl yn y DU i weld cynnydd mewn tlodi plant yn 2017-2018 - gyda mwy na 206,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru (dros 29% o blant i gyd). Mae'n ddiogel dweud bod Cymru wedi cyrraedd pwynt argyfwng, gydag Ymddiriedolaeth Trussell yn cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019 eu bod wedi gweld cynnydd syfrdanol o 14% yn y parseli bwyd brys a anfonwyd at blant o Gymru yr haf diwethaf.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau gynorthwyo rhieni a gwarcheidwaid mewn angen, gan ddarparu 'cymorth pwysig a rhaglenni cymorth yn enwedig o ran maeth, dillad a thai'. Yn wir, mae llywodraethau olynol Cymru wedi cychwyn nifer o strategaethau tlodi plant gyda'r nod - a oedd yn glodwiw ond a ddiweddodd yn wael – o ddod â thlodi plant i ben erbyn 2020. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn rhaglenni 'newyn gwyliau', brecwast ysgol am ddim i blant ysgol gynradd a'r Prydau Ysgol am Ddim adnabyddus, ymhlith mentrau eraill.

Mae'r elusen arobryn, TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities), sy'n gweithio yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, bellach yn ymgyrchu dros gynnydd yn y lwfans ddyddiol ar gyfer prydau ysgol am ddim, o ganlyniad i dystiolaeth ar lawr gwlad nad yw bellach yn addas at y diben ac yn methu â lleddfu llwgu mewn ysgolion uwchradd.

Mae TCC wedi dysgu bod grŵp sylweddol o blant ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn cyrraedd yr ysgol yn llwglyd ac yn defnyddio eu lwfans i dalu am frecwast, gan eu gadael heb ddigon o arian i dalu am y pryd amser cinio cytbwys o ran maeth y mae'r dyraniad i fod i'w ddarparu. Er bod ei achosion yn aml-haenog a chymhleth, mae maint y broblem tlodi plant yng Nghymru yn amlwg ac yn peryglu effeithiolrwydd prydau ysgol am ddim i fynd i'r afael â llwgu di-ddiwedd.

Mae hyn wedi arwain at staff yn rhoi eu dwylo yn eu pocedi eu hunain i fwydo disgyblion sy'n ysu am fwyd, ac sy'n methu â chanolbwyntio ar unrhyw beth heblaw eu stumogau gwag. Mae hyn yn nodi dychwelyd at yr union reswm pam y cafodd prydau ysgol am ddim eu hystyried yn y lle cyntaf: i atal athrawon yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif rhag defnyddio eu cyflogau eu hunain i fwydo plant, fel y byddent mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar yr addysg orfodol sydd ar gael.

Ynghyd â thystiolaeth gymharol o bob rhan o Gymru a'r DU ar effeithiau tlodi a'r buddion niferus o fwyta brecwast, mae TCC yn bendant bod hon yn broblem ledled Cymru, sy'n gofyn am weithredu ar unwaith gan Lywodraeth Cymru. Mae TCC yn galw ar Lywodraeth Cymru i ychwanegu 80c bob dydd at y lwfans prydau ysgol am ddim, gyda'r amser wedi'i gyfyngu i ddiwedd egwyl y bore, fel bod y plant tlotaf mewn ysgolion uwchradd yn cael cyfle i gael brecwast a chinio maethlon, ac y byddant yn medru dysgu'n well.[1]

Mae hyn yn cynnig ffordd gost-effeithiol i Lywodraeth Cymru leddfu effeithiau gwaethaf llwgu mewn ysgolion uwchradd, heb fawr ddim cost bellach o ran seilwaith.

Byddai buddion cyflwyno lwfans ychwanegol yn benodol ar gyfer brecwast yn berthnasol hefyd i Lywodraeth Cymru, o ran helpu i gyflawni ei huchelgeisiau addysgol o ran y cwricwlwm newydd sbon a diogelu y buddsoddiant sydd eisoes mewn prydau ysgol am ddim. Byddai'n cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn ogystâl â uchelgeisiau sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Tlodi Plant 2015 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

PWY YW TCC?

Mae TCC (Trefnu Cymunedol Cymru /Together Creating Communities) yn elusen drefnu gymunedol sy'n eang ei sail a'r hynaf yn y DU. Dan arweiniad aelodau ac wedi'i sefydlu ym 1995, mae TCC yn gweithio ar draws Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, yn cynnwys dros 35 o ysgolion, sefydliadau cymunedol a grwpiau ffydd.

Mae TCC yn defnyddio trefnu cymunedol i hyfforddi a hwyluso arweinwyr cymunedol i nodi materion cymunedol a gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i roi newid cadarnhaol ar waith. Mae hyn wedi arwain at ystod amrywiol o ymgyrchoedd llwyddiannus ym maes cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys ynghylch y Cyflog Byw, darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain mewn ysgolion a busnesau, tlodi angladdau a sicrhau lloches nos i ddynion a menywod digartref yn Wrecsam.

Dair blynedd yn ôl, llwyddodd TCC i drechu cystadleuaeth gref gan dros 700 o elusennau eraill yn y DU, i ennill Gwobrau Elusen y Guardian 2016, a oedd yn dathlu sefydliadau ar raddfa fach sy'n ymwneud â phrosiectau hynod ysbrydoledig ac arloesol sy'n cryfhau cymunedau lleol. Cafodd y gwobrau eu barnu gan brif weithredwyr sawl sefydliad elusennol blaenllaw, a chanmolwyd TCC am ei gydweithrediad â sefydliadau eraill, ac am gyflawni gwelliannau ymarferol, effeithiol i'w gymunedau.

[1] Mae'r papur hwn yn canolbwyntio'n benodol ar broblem uniongyrchol sy'n ymwneud â phrydau ysgol am ddim. Ni thrafodir materion hanfodol eraill yn y papur hwn, megis ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, ansawdd y bwyd a gynigir, effaith amser egwyl diweddarach yn ogystâl â'r gost ddiangen ac effaith amgylcheddol o werthu dŵr potel mewn cynigion 'pryd y dydd', gan eu bod y tu hwnt i'w gylch gwaith.

SUT Y DECHREUODD YR YMGYRCH DYSGU NID LLWGU

Yn gynnar yn 2017, cychwynnwyd yr ymgyrch Dysgu Nid Llwgu gan staff mewn ysgol uwchradd yn Wrecsam, a gredai nad oedd y lwfans prydau ysgol am ddim bellach yn addas at y diben. Roeddent wedi sylwi ar nifer cynyddol o ddisgyblion, a oedd yn derbyn y lwfans prydau ysgol am ddim, yn cyrraedd yr ysgol yn llwgu, yn prynu brecwast yn yr ysgol, a felly heb ddigon o arian i fforddio'r cinio cytbwys o ran maeth a fyddai yn eu llenwi, y mae'r system prydau ysgol am ddim yn anelu at ei ddarparu.

Gan wybod am effaith gadarnhaol brecwast iach ar ddysgu, roedd yr ysgol - ac aelodau staff unigol weithiau - yn poeni digon i ddechrau prynu brecwast i rai o'r disgyblion tlotaf. Yn eu barn nhw, byddai gwneud hynny'n sicrhau y byddai'r disgyblion hyn yn llai llwglyd, yn hapusach ynddynt eu hunain, ac yn fwy parod i ganolbwyntio ar wersi trwy'r bore. Yn wir, mae pob adran yr ysgol yn darparu 'clwb brecwast bach' am ddim i bob disgybl ar ddiwrnod arholiad.

Mae'r ymdrechion byrfyfyr hyn i leddfu llwgu yn yr ysgol yn stori sy'n cael ei hailadrodd ar gyfer athrawon ac ysgolion ledled Gogledd Ddwyrain Cymru, a thu hwnt. Mae athrawon ac ysgolion wedi ymrwymo i ddatblygiad addysgol eu disgyblion, a'u lles. Mae camu i mewn i ddarparu bwyd ar ddechrau'r dydd yn helpu plant, sydd eisoes dan anfantais fawr, i gyfnewid eu chwant bwyd am chwant i ddysgu - a defnyddio'r lwfans prydau ysgol am ddim i gael cinio iawn, fel y bwriadwyd o'r cychwyn cyntaf.[2] Ond mae hyn hefyd yn effeithio'n niweidiol ar yr adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig iawn mewn ysgolion, y gellir dadlau y dylid eu gwario ar bethau eraill (megis cwrdd â gofynion Cwricwlwm Cymru 2022, er enghraifft).

Gydag athrawon ledled Cymru a'r DU[3] bellach yn teimlo'n ddigon pryderus i droi at eu harian personol eu hunain i dalu am ginio neu roi benthyg arian i ddisgyblion, mae'r union egwyddorion y seiliwyd prydau ysgol am ddim arnynt dan fygythiad. Gwelwyd y fersiwn gyntaf o brydau ysgol am ddim ym 1906, er mwyn atal athrawon rhag defnyddio eu cyflogau eu hunain i fwydo plant a oedd yn yr ysgol o ganlyniad i Ddeddf Forster 1870, a wnaeth addysg elfennol yn orfodol.[4]

Er bod ei achosion yn aml-haenog a chymhleth, mae maint problem tlodi plant yng Nghymru yn amlwg yn peryglu effeithiolrwydd prydau ysgol am ddim i fynd i'r afael â llwgu di-ddiwedd.

> ***Dwi wedi [gweithio â] llawer o bobl ifanc sy'n gorfod dewis rhwng brecwast a chino, dwi'n dod â bwyd ychwanegol i'w rannu gyda nhw ar adegau.***
> *Gweithiwr ieuenctid yn yr ysgol, Wrecsam*

[2] Yn hanesyddol, mae hwn wedi bod yn bryd bwyd a ddarperir am ddim, fel arfer amser cinio, i fyfyrwyr o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas.
[3] Human Rights Watch (2019) Nothing Left in the Cupboards: Austerity, welfare cuts, and the right to food in the U.K
[4] Gweler yr atodiad am amlinellu hanes Prydau Ysgol am Ddim yn y DU.

LLUN O DLODI

Mae plant Cymru yng ngafael argyfwng tlodi. Mae'r adran hon yn cynnig naws yr ymchwil eang sy'n dangos tystiolaeth o hyn, a sut mae staff ysgolion uwchradd yn camu i mewn i leddfu'r llwgu a'r blinder a deimlir gan rai o'u disgyblion.

Canfu'r Athro Philip Alston, Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar dlodi eithafol a hawliau dynol, fod un rhan o bump o'r boblogaeth, ar draws y DU gyfan, yn byw mewn tlodi ac roedd 1.5 miliwn o bobl wedi profi amddifadedd yn 2017.[5] Dywedodd hefyd fod disgwyl i gyfraddau tlodi plant cymharol gynyddu 7% rhwng 2015 a 2021, gyda chyfraddau tlodi plant cyffredinol yn cyrraedd bron i 40%.[6] Yn ôl Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig, mae Cymru'n wynebu'r gyfradd uchaf o dlodi cymharol yn y DU7 gyda bron i un o bob pedwar o bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol.[8]

Canfu ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019 gan Brifysgol Loughborough, a gomisiynwyd gan yr End Child Poverty Network (yn cynnwys Plant yng Nghymru, Oxfam Cymru, Barnardo's Cymru ac Achub y Plant, ymhlith eraill) mai Cymru oedd yr unig genedl yn y DU i weld cynnydd mewn tlodi plant [9] yn 2017-2018 - gyda mwy na 206,000 o blant bellach yn byw mewn tlodi yng Nghymru (dros 29% o blant i gyd).[10] Mae'n ddiogel dweud bod Cymru wedi cyrraedd pwynt argyfwng, gydag Ymddiriedolaeth Trussell yn cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019 eu bod wedi gweld cynnydd syfrdanol o 14% yn y parseli bwyd brys a anfonwyd at blant o Gymru yn ystod haf 2017.[11]



Mae ffigurau diweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn dangos bod bron i un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi cymharol, ar ôl costau tai,[12] gyda phlant yn cyrraedd yr ysgol yn llwglyd, ac ysgolion ac athrawon unigol yn darparu bwyd iddyn nhw a'u teuluoedd.[13] Mae adroddiad diweddar y Children's Future Food Inquiry, Children's Right to Food, hefyd yn amlinellu sut mae tlodi ac ansicrwydd ynghylch bwyd yn amlygu ei hun ym mhob agwedd ar fywydau plant, gan gynnwys iechyd a pherthnasoedd yn ogystal â chyrhaeddiad yn yr ysgol.[14] Clywodd yr Ymchwiliad hefyd dystiolaeth am blant yn cyrraedd yr ysgol heb gael brecwast, yn gwario eu lwfans prydau bwyd am ddim yn ystod yr egwyl a felly heb arian ar ôl i brynu cinio.[15]

[5] Gweler yr Athro Philip Alston, Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig (2018), 'Report of the Special Rapporteur on extreme poverty and human rights', 5 16 Tachwedd https://undocs.org/A/HRC/41/39/Add.1 t.4
[6] ibid, t.6 | [7] ibid, t.19 | [8] ibid, t.117
[9] Mae hyn yn golygu bod plentyn yn byw mewn cartref lle mae'r incwm yn is na 60% o'r incwm canolrifol.
[10] India Pollock, Gohebydd Materion Cymdeithasol BBC Cymru (2019) 'Child poverty: Wales is the only UK nation to see increase' BBC Wales Online 15 Mai https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48259327
[11] Tomos Povey (2019) 'Figures show shocking rise in food parcels being handed out to children in Wales' South Wales Argus 16 Gorffennaf https://www.southwalesargus.co.uk/news/17771190.figures-show-shocking-rise-food-parcels-handed-children-wales/
[12] Francis-Devine et al (2019), 'Poverty in the UK: statistics', House of Commons briefing paper 7096, 2 Gorffennaf, t.34.
[13] Human Rights Watch (2019) Nothing Left in the Cupboards: Austerity, welfare cuts, and the right to food in the U.K., t.37.
[14] 2019, Children's Future Food Inquiry, Children's Right to Food, https://foodfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Childrens-Future-Food-Inquiry-report.pdf
[15] Ibid, t.43.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau gynorthwyo rhieni a gwarcheidwaid mewn angen, gan ddarparu 'cymorth pwysig a rhaglenni cymorth yn enwedig o ran maeth, dillad a thai'.[16] Yn wir, mae llywodraethau olynol Cymru wedi cychwyn nifer o strategaethau tlodi plant gyda'r nod - a oedd yn glodwiw ond a ddiweddodd yn wael - o ddod â thlodi plant i ben erbyn 2020.[17] Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn rhaglenni 'newyn gwyliau',[18] brecwast ysgol am ddim i blant ysgol gynradd[19] a'r lwfans prydau ysgol am ddim adnabyddus,[20] ymhlith mentrau eraill.

Ond mae staff addysgu ac eraill yn parhau i weld effaith negyddol llwgu ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn cynnwys Geoff Barton, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), a ddywedodd mewn araith ym mis Mawrth 2019 mai'r her gyfoes fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu penaethiaid a staff addysgu yw effaith cyni a'r cynnydd mewn tlodi ar fywydau bob dydd disgyblion.[21] Gan gyfeirio at arolwg ASCL, a gasglodd farn 407 o benaethiaid ysgolion uwchradd ledled Cymru a Lloegr, ailadroddodd Barton eiriau un: "Mewn 24 mlynedd o addysg dydw i ddim wedi gweld tlodi o'r maint hyn. Mae plant yn dod i'r ysgol yn llwglyd, yn fudr a heb y pethau sylfaenol i'w paratoi ar gyfer bywyd. Mae'r bwlch rhwng y rhai sy'n cael a'r rhai sydd ddim yn cael yn cynyddu ac mae'n amlwg". Canfu'r arolwg hwn fod 43% o ysgolion uwchradd yn darparu bwyd i ddisgyblion, neu eu teuluoedd, gydag ymatebydd arall yn nodi, "Mae gennym fyfyrwyr sy'n dod i mewn i'r ysgol yn llwgu. Fedran nhw ddim canolbwyntio na dysgu'n effeithiol tra bod arnyn nhw eisiau bwyd".[22]

Yn ddealladwy, mae athrawon yn ei chael hi'n fwyfwy anodd peidio â chael eu heffeithio wrth wynebu realiti tlodi plant yn eu hystafell ddosbarth, ac o ganlyniad maent yn gweithredu eu hunain. Dywedodd arolwg ar y cyd rhwng yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) a Grŵp Gweithredu Tlodi Plant o 900 o athrawon (yr oedd 47% ohonynt yn gweithio mewn ysgolion uwchradd) fod dros draean yn darparu bwyd i ddisgyblion bob tymor, gyda 12% yn gwneud hynny bob wythnos.[23]

[16] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (20 Tachwedd 1989) 1577 UNTS 3 (UNCRC) Art 27 (3).
[17] (2016) 'Dim diwedd ar dlodi plant erbyn 2020, dywed Llywodraeth Cymru' BBC Wales Online 13 Rhagfyr https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-38308763
[18] Gweler adolygiad Sefydliad Bevan o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn rhaglenni newyn gwyliau yma: (2019) 'Kids on the breadline: Solutions to holiday hunger' https://41ydvd1cuyvlonsm03mpf21pub-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2019/05/Kids-on-the-Breadline-070519-Final-New-Cover-2.pdf
[19] Ebrill 2015, Llywodraeth Cymru, 'Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd': https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/free-breakfast-in-primary-schools.pdf
[20] Mawrth 2019, Llywodraeth Cymru, 'Prydau Ysgol am Ddim yng Nghymru: Gwybodaeth i Ysgolion': https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/free-school-meals-in-wales-information-for-schools.pdf

Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n dod ar draws disgyblion / myfyrwyr heb yr eitemau canlynol y byddech chi'n tybio sydd o ganlyniad i dlodi? (862 o atebion)



Canlyniadau Arolwg NEU a'r Grŵp Gweithredu Plant (Ebrill 2018)

Yn drawiadol, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod wedi dod ar draws disgyblion nad oeddent wedi bwyta brecwast iach oherwydd tlodi, gyda chanran enfawr o 55% yn dweud eu bod yn gwneud hynny 'yn aml'. Daeth ymhell dros hanner yr ymatebwyr ar draws disgyblion heb ddigon o fwyd i'w fwyta yn ystod y diwrnod ysgol oherwydd tlodi, gyda 28% yn gwneud hynny'n 'aml' a 39% yn gwneud hynny 'weithiau'.

Mae'r arolwg hwn hefyd yn dangos sut mae athrawon unigol wedi cyfrannu lle mae'r wladwriaeth wedi tynnu'n ôl. Yn ogystâl â bwyd, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn darparu offer ysgol i ddisgyblion, gydag un rhan o bump yn cyflenwi citiau addysg gorfforol a chynhyrchion iechydol / hylendid eraill i ddisgyblion.[24]

[21] Geoff Barton, Ysgrifennydd Cyffredinol ASCL (2019), Araith y Gynhadledd Flynyddol, 16 Mawrth https://www.ascl.org.uk/professional development/conferences/ascl-annual-conference/geoff-barton-annual-conference-2019-speech.html. Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2019.
[22] ASCL 'ASCL survey finds rising tide of pupil poverty' 15 Mawrth 2019 https://www.ascl.org.uk/News/Our-news-and-press-releases/ASCL-survey-reveals-rising-tide-of-pupil-poverty (Cyrchwyd 2 Tachwedd 2019)
[23] Mae'r arolwg hefyd yn dangos sut mae ysgolion yn darparu clybiau bwyd am bris isel, banciau dillad a phrydau bwyd am ddim neu â chymhorthdal i deuluoedd. Gweler (2018) 'Child poverty and education: a survey of the experiences of NEU members' National Education Union and Child Poverty Action, Ebrill 2018. https://cpag.org.uk/policy-and-campaigns/report/child-poverty-and-education-survey-experiences-neu-members
[24] ibid

PAM MAE BWYD YN BWYSIG

Mae pwysigrwydd hanfodol bwyd maethlon i sicrhau bod plant yn hapus, yn iach, yn barod ac yn abl i ddysgu yn hysbys iawn; dyma pam mae clybiau brecwast wedi'u sefydlu mewn ysgolion cynradd ac mae prydau ysgol am ddim yn canolbwyntio ar ddarparu pryd bwyd cytbwys amser cinio. Canfu Littlecott et al yn eu hastudiaeth yn 2015 o 5,000 o blant 9 i 11 oed fod y fenter brecwast am ddim i ysgolion cynradd yng Nghymru wedi dangos cysylltiadau sylweddol rhwng bwyta brecwast a chanlyniadau addysgol.[25]

Mae ymchwil diweddar gan Coulthard et al, gan ddefnyddio data o Raglen Dreigl Arolwg Diet a Maeth Cenedlaethol y DU, yn cadarnhau bod gan y rhai sy'n bwyta brecwast broffil maethol cyffredinol gwell na'r rhai sy'n mynd heb frecwast.[26] Mewn astudiaeth o swyddogaeth wybyddol plant 12 i 14 oed gan Cooper et al yn 2011, roedd gan y rhai a oedd yn bwyta brecwast mynegai glycemig isel (GI) amseroedd ymateb a chywirdeb gwell mewn profion na'r rhai a oedd wedi mynd heb frecwast, neu a oedd wedi bwyta brecwast mynegai glycemig uchel.[27]

Ymhellach, fe wnaeth Rampersaud et al[28] grynhoi 47 astudiaeth (gan edrych ar bobl ifanc a phlant) a oedd yn ystyried manteision bwyta brecwast, ac edrychodd 22 ohonynt ar y cysylltiad rhwng brecwast a pherfformiad academaidd. Daethant i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos bod bwyta brecwast yn gwella swyddogaeth wybyddol o ran cof a phresenoldeb ysgol. Cafwyd canlyniadau a manteision tebyg o ran iechyd a lles cyffredinol hefyd mewn adolygiad gan Lundqvist et al.[29]

Lansiodd Llywodraeth Cymru'r Fenter Brecwast am Ddim ar gyfer ysgolion cynradd yn 2004.[30] Er nad yw'r fenter hon heb ei phroblemau (gan gynnwys taliadau sydd wedi dechrau ymddangos[31] a rhestrau aros[32]), mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad bod darparu brecwastau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd yng Nghymru yn ddefnydd effeithiol o'i hadnoddau. Mae ar blant hŷn angen cymaint o faeth â'u cymheiriaid iau ac maen nhw'n costio cymaint, os nad mwy, i deuluoedd eu bwydo. Ond ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y plant hynny sydd angen egni er mwyn cwblhau arholiadau pwysig, a does dim cynlluniau ar droed i newid hynny.[33]

[25] Littlecott et al (2015) 'Association between breakfast consumption and educational outcomes in 9–11-year-old children' Public Health Nutrition https://pdfs.semanticscholar.org/c747/c7568fbe570c605278052cf005263b52b0d3.pdf
[26] Coulthard, J.D. et al (2017) 'Breakfast consumption and nutrient intakes in 4 to 18-year-olds: UK National Diet and Nutrition Survey Rolling Programme (2008-2012)'. British Journal of Nutrition , Cyf 118 (4), tt.280-290. DOI : https://doi.org/10.1017/S0007114517001714
[27] Cooper et al (2011) 'Breakfast glycaemic index and cognitive function in adolescent school children'. British Journal of Nutrition, Vol 107 (2), pp.1823-1832. DOI: https://doi.org/10.1017/S0007114511005022
[28] Rampersaud et al (2005) Breakfast Habits, Nutritional Status, Body Weight, and Academic Performance in Children and Adolescents. DOI : https://doi.org/10.1016/j.jada.2005.02.007
[29] Lundqvist et al (2018) Effects of eating breakfast and school breakfast programmes on children and adolescents: a systematic review https://liu.diva-portal.org/smash/get/diva2:1243060/FULLTEXT01.pdf
[30] Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://gov.wales/free-breakfast-primary-schools
[31] (2019) 'Monmouthshire school breakfast club attendance drops after charge' BBC Wales Online 10 Mehefin https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48585807
[32] (2018) 'Parents queue up overnight for Cardiff school breakfast club' BBC Wales Online 19 Gorffennaf https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-44887865
[33] Kirsty, Williams AC. Llythyr at Ken Skates AC. 19 Mawrth 2019 (a anfonwyd ymlaen at TCC).

PAM NAD YW'R LWFANS PRYDAU YSGOL AM DDIM YN ADDAS AT Y DIBEN

Er bod ymchwil wedi dangos pwysigrwydd brecwast i blant ysgol uwchradd o ran cyrhaeddiad addysgol ac iechyd a lles cyffredinol, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i ddarparu lwfans prydau ysgol am ddim sydd wedi'i gynllunio i dalu am ginio yn unig. Mae'r ddyfais allweddol hwn i fynd i'r afael â thlodi plant bellach yn amlwg yn methu â lleddfu chwant bwyd y rhai sydd yn yr angen mwyaf. I'r disgyblion hynny sydd newydd ddechrau eu haddysg uwchradd, efallai y bydd y cyferbyniad yn cael ei deimlo'n arbennig yn eu stumogau ac ym mhocedi eu rhieni, o gofio na fyddant bellach yn elwa o'r brecwast am ddim a ddylai fod wedi bod ar gael iddynt yn eu blynyddoedd cynradd.

Yn fwyaf diweddar, mae llawer o sefydliadau wedi mynegi pryderon ynghylch nifer y plant - ar lefel gynradd ac uwchradd - sydd wedi colli eu hawl am brydau ysgol am ddim, yn dilyn newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd. Dim ond plant mewn teuluoedd ag enillion net o hyd at £7,400 sydd bellach â hawl i'w dderbyn o dan y system budd-dal Credyd Cynhwysol newydd.[34] Mae Cymdeithas y Plant yn amcangyfrif bod 55,000 o blant bellach yn colli'r hawl i brydau ysgol am ddim oherwydd y rheolau newydd, er eu bod yn byw o dan y llinell dlodi, gyda'r mwyafrif yn dod o deuluoedd sy'n gweithio.[35] Mae Sefydliad Bevan ac eraill yn gofyn am adolygiad o faeth plant yng Nghymru a newid i'r cap diweddar o £7,400, ac mae TCC yn cefnogi'r ddau beth hyn. Ym mis Hydref 2019, argymhellodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cymru y dylid dyblu'r trothwy enillion ar gyfer teuluoedd sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn 2020.[36]

> ***Roedd 18% o blant ysgol uwchradd yn methu, neu'n anfodlon, esbonio pam eu bod yn dod i'r ysgol ar stumog wag.***
> *Arolwg TCC, Gwanwyn / haf 2018*

[34] Martin George (2018) 'Government sets £7,400 annual income threshold for free school meals' TES 7 Chwefror https://www.tes.com/news/government-sets-ps7400-annual-income-threshold-free-school-meals
[35] Ymateb Cymdeithas y Plant i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd diwygiedig ar gyfer PYD.
[36] Daniel Davies, Gohebydd Materion Cymdeithasol BBC Cymru (2019) 'Free school meals: Double earnings threshold, say AMs' BBC Wales Online, 24 Hydref https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50158154

BRECWAST - DEWIS?

Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a haf 2018, cynhaliodd TCC arolwg o bron i 500 o ddisgyblion ac athrawon o bum ysgol uwchradd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, lle roedd bron i un o bob pedwar disgybl yn derbyn prydau ysgol am ddim. Prif bwrpas yr arolwg oedd gweld a fyddai'r darlun o dlodi a ganfuwyd yn yr ysgol wreiddiol yn Wrecsam yn cael ei ailadrodd mewn ysgolion cyfagos eraill.[37] Canfu TCC, ar gyfer grŵp bach ond dim llai arwyddocaol o ddisgyblion, yn enwedig y rhai oedd yn derbyn y lwfans prydau ysgol am ddim, bod canfod brecwast a chinio wedi dod yn broblem barhaus, a oedd yn cael effaith negyddol ar eu lles a'u gallu i ddysgu.[38]

> ***Mae dros 88% o blant ysgol uwchradd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n prynu brecwast yn yr ysgol ac nad oes ganddynt ddigon dros ben i ginio, yn gwneud hynny am resymau sy'n wahanol i redeg yn hwyr neu oherwydd nad ydyn nhw 'yn berson brecwast'.***
> *Arolwg TCC, Gwanwyn / haf 2018*

Wrth gwrs, nid yw plant ysgol uwchradd bob amser eisiau brecwast nac ag amser ar ei gyfer. Ategir hyn gan yr arolwg, gyda dros hanner yr holl ddisgyblion byth yn cael brecwast, neu weithiau'n methu brecwast, oherwydd y rhesymau hyn. Ond roedd 18% o blant ysgol uwchradd yn methu, neu'n anfodlon, esbonio pam eu bod yn dod i'r ysgol â stumog wag (mae'n werth nodi yma y gallai rhai plant fod yn amharod i ddweud nad oedd bwyd gartref).

Pan ofynnwyd a oeddent erioed wedi prynu brecwast yn yr ysgol ac wedi darganfod yn ddiweddarach nad oedd ganddynt ddigon o arian i brynu cinio, dywedodd 34% o'r holl ddisgyblion eu bod wedi profi hyn ar ryw adeg neu'i gilydd. Dywedodd mwyafrif helaeth y disgyblion (dros 88%) oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim ac a oedd wedi prynu brecwast yn yr ysgol eu bod yn gwneud hynny am resymau oedd yn wahanol i redeg yn hwyr neu oherwydd nad oedden nhw 'yn berson brecwast'.

Dywedodd dros hanner y disgyblion oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim wrth TCC eu bod yn dod i'r ysgol yn teimlo'n "drist" neu'n "llwglyd", gydag un yn nodi "Dwi'n teimlo'n llwglyd cyn cinio ac yna rwy'n mynd yn flin oherwydd fy mod i'n llwglyd".

> ***Mae 49% o'r staff addysgu 'weithiau' yn darparu bwyd i ddisgyblion, gyda 13% yn gwneud hynny'n 'aml'.***
> *Arolwg TCC, Gwanwyn / haf 2018*

[37] Rhoddodd yr arolwg hwn gipolwg i TCC ar lwgu mewn ysgolion uwchradd yn gyffredinol, ond hefyd wybodaeth am effeithiolrwydd y lwfans prydau ysgol am ddim i'w leddfu. Bydd ymchwil ansoddol yn digwydd yn ystod yr ymgyrch.
[38] Yn eu hadroddiad, 'Nothing Left in the Cupboards', siaradodd Human Rights Watch ag athrawon a oedd yn adleisio'r hyn yr oedd staff addysgu yng ngogledd ddwyrain Cymru wedi'i ddweud wrth TCC am lwgu amser brecwast, sef bod plant yn colli brecwast am sawl rheswm, ond bod yna graidd sylweddol o ddisgyblion yn gwneud hynny yn rheolaidd, oherwydd diffyg adnoddau gartref: Adroddiad Human Rights Watch https://www.hrw.org/sites/default/files/report_pdf/uk0519_web3.pdf

Gwnaeth TCC arolwg hefyd o dros 100 o staff addysgu ysgolion uwchradd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru mewn perthynas â llwgu yn yr ysgol. Canfu'r arolwg:

— Roedd 49% o'r staff addysgu 'weithiau' yn darparu bwyd i ddisgyblion, gyda 13% yn gwneud hynny'n 'aml'. Tynnodd un athro sylw at y peryglon posib: "Dechreuais ddod â brecwast i un disgybl nad oedd wedi cael brecwast gartref, yna daeth i ddibynnu arna' i i ddod â brecwast neu fyrbryd iddi".
— Mae 69% o'r staff addysgu wedi atgyfeirio plant am help, oherwydd nad oedd ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer bwyd.
— Mae 75% o staff addysgu yn credu y byddai brecwast am ddim i ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud gwahaniaeth i'w dysgu, gydag un athro'n dweud, "byddai eu meddyliau'n canolbwyntio ar rywbeth heblaw llwgu".

> ***Mae 69% o'r staff addysgu wedi atgyfeirio plant am help, oherwydd nad oes ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer bwyd.***
> *Arolwg TCC, Gwanwyn / haf 2018*

Fel rhan o'r arolwg, amlinellodd athrawon eu profiad o ddydd i ddydd, ac fe wnaethant siarad am sut na fyddai rhai plant o reidrwydd eisiau dangos eu bod yn cael trafferth: "Maen nhw mewn oedran lle na fydden nhw bob amser yn dweud eu bod nhw eisiau bwyd yn sicr ddim o flaen eraill. Ond rwy'n amau ei fod yn digwydd yn aml". Dywedodd un arall: "Yn aml bydd dyn ifanc yn cuddio bwyd pan fydd ar gael rhag ofn na fydd ganddo fwyd pan fydd yn cyrraedd adref. Mae hyn wedi digwydd gydag amryw o ddysgwyr dros y blynyddoedd."

Soniodd llawer am y ffyrdd y maent yn troi at eu cyflogau eu hunain i geisio lliniaru peth o'r dioddefaint amlwg: "Yn amlach na pheidio rwy'n gweld plant yn mynd heb ginio gan nad oes ganddyn nhw ddigon o arian yn eu cyfrif. Rydw i yn rhoi arian iddyn nhw i'w cadw i fynd." Mae yna sylwadau hefyd yn ymwneud â'r gost anghynaliadwy i staff addysgu:[39] "Dwi wedi helpu disgyblion i dalu am ginio gan eu bod wedi rhedeg allan o arian, felly byddai help gyda threfnu arian neu frecwastau ychwanegol am ddim yn ddefnyddiol".

Mae'r lwfans prydau ysgol am ddim a dderbynnir gan ddisgyblion yn amrywio ledled Cymru, yn aml yn ôl sir ac weithiau yn ôl ysgol.[40] Beth bynnag fo'r trefniadau lleol, dylai pris prif bryd bwyd amser cinio gyd-fynd â phris y lwfans prydau ysgol am ddim i'r awdurdod neu'r ysgol honno. Felly mae'n ddigonol i dalu am ginio ar hyn o bryd, ond fawr ddim arall (sylwer ar y tabl isod am esiamplau).

[39] Cwblhawyd holiadur staff TCC gan athrawon a chynorthwywyr addysgu, er na chasglwyd gwybodaeth am rolau ymatebwyr. Ond yn aml ni thelir Cyflog Byw i gynorthwywyr addysgu.
[40] The Bevan Foundation (2019) Back to school? Local variations in help with costs of school meals and uniforms

Sir	Lwfans prydau ysgol am ddim	Prif bryd bwyd amser cinio
Caerdydd	£2.95	Pryd y dydd £2.95 (wedi'i weini gyda dŵr potel)[41]
Sir Ddinbych	£2.35	Pryd y dydd £ 2.35 Pryd oer y dydd £2.35
Sir y Fflint	£2.40	Pris pryd gosodedig £2.35[42]
Wrecsam	£2.45	£2.45[43]
Abertawe	£2.40	Pryd y dydd £2.40 (wedi'i weini gyda dŵr potel)[44]

Nid yw pob awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth am brisiau ei eitemau bwydlen unigol mewn ysgolion uwchradd, a, lle mae ysgolion yn gosod eu lwfans prydau ysgol am ddim eu hunain, efallai na fydd bwydlenni ar gael ar wefannau ysgolion o gwbl.[45] Ond yr hyn sy'n amlwg o edrych yn gyflym ar ddetholiad o wefannau awdurdodau lleol ac ysgolion yw'r amrywiad mewn prisiau brecwast ac eitemau byrbryd iach.[46]

Eitem	Pris
Tost	30c Castell-nedd Port Talbot (un ysgol) 31c Powys 38c Wrecsam 30c – 50c Gwynedd
Grawnfwyd	41c – 50c Sir Fynwy (ar gyfer un ysgol, mae'r pris uwch am uwd) 73c Wrecsam
Un ffrwyth ffres	40c Caerdydd 55c Powys
Te/coffi	50c Gwynedd (un ysgol) 60c Powys

[41] Mae'r cynigion 'pryd y dydd' hyn yn cynnwys potel o ddŵr, sy'n ymddangos yn gost ddiangen, yn ariannol ac yn amgylcheddol, a bron yn sicr yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Comisiynydd Plant Cymru, yn ei Siarter Newid yn nodi, mewn rhai achosion, mai dŵr potel oedd yr unig opsiwn, gyda ffownteni dŵr naill ai wedi'u diffodd neu ddim ar gael. O edrych ar y bwydlenni ar gyfer ysgolion uwchradd ledled Caerdydd, er enghraifft, mae'n anochel bod cynnwys dŵr potel yn gwthio prisiau'r prydau i fyny yn ddiangen. Mae creu bwydlenni o'r fath yn golygu bod disgyblion sy'n derbyn lwfans PYDd dan anfantais bellach oherwydd y ffordd y mae rhai arlwywyr ysgol yn creu ac yn prisio eu bwydlenni. Bwydlen Caerdydd yma.
[42] Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar https://www.newydd.wales/en/Secondary-School-Meals.aspx
[43] Nid yw prisiau bwydlenni ysgolion uwchradd ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam; daeth y wybodaeth hon o sgyrsiau y mae TCC wedi'u cael gyda staff ysgolion.
[44] Nododd gwybodaeth ar https://www.swansea.gov.uk/secondaryschoolmeals yn ystod mis Gorffennaf 2019 fod pryd cytbwys llawn yn £2.30 gan gynnwys pwdin a dŵr potel. Pris potiau pasta poeth oedd £1.45 (15c yn fwy na'r lwfans PYDd o £2.30 ar y pryd) ac roeddent yn cael eu hysbysebu fel rhai 'a fydd yn diwallu eich newyn'. Mae cost pryd bwyd llawn wedi codi i £2.40 ers hynny, ond nid yw'r lwfans PYDd yn glir ar y wefan.
[45] Er enghraifft, ysgolion yng Nghonwy, Sir Fynwy a Castell-nedd Port Talbot.
[46] Casglwyd y prisiau o wefannau awdurdodau lleol ac ysgolion (Gorffennaf 2019 a Medi 2019), neu o wahanol sgyrsiau.

Gan fod y lwfans prydau ysgol am ddim yn ddigon i dalu cost y cinio cytbwys o ran maeth, bob dydd mae gan rai plant ddewis amlwg i'w wneud, naill ai:

—Peidio â theimlo'n llwglyd trwy dalu am frecwast neu fyrbryd ganol bore, gan wybod y byddant yn fforffedu cinio iawn ac y byddant yn llwglyd eto yn ystod gwersi prynhawn; neu
—stryglo trwy wersi'r bore ac aros tan amser cinio am bryd o fwyd fydd yn eu llenwi.

Mae canfyddiadau TCC yn gyson ag ymchwil a wnaed gan sefydliadau eraill. Er enghraifft, canfu Comisiynydd Plant Cymru (yn dilyn rownd o 550 o weithdai a sgyrsiau gyda phobl ifanc) nad oedd y lwfans prydau ysgol am ddim, mewn rhai achosion, yn 'ddigon' hyd yn oed i dalu am ginio iawn a fyddai'n rhoi cynhaliaeth ddigonol ar gyfer y diwrnod ysgol. Yn sicr, nid yw'n ddigon i ddisgyblion allu prynu brecwast a chinio, gydag un disgybl yn dweud bod yn rhaid iddo "lwgu tan amser cinio tra gallai pawb arall brynu'r hyn yr oeddent ei eisiau".[47]

YCHWANEGU 80C AT Y LWFANS PRYDAU YSGOL AM DDIM

Estyniad i'r Brecwast Ysgol am Ddim
Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi ysgrifennu'n helaeth am effaith tlodi ar blant ysgol uwchradd, a'r ffordd y mae llawer o ysgolion wedi sefydlu clybiau brecwast gyda'r Grant Datblygiad Disgyblion, a/neu'n wirfoddol, gydag ewyllys da athrawon, sefydliadau lleol ac ambell grant bach.[48] Mae'r rhain wedi bod yn bwysig o ystyried nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, ond eto nad ydyn nhw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Manteision 80c i frecwast
Mae TCC yn cydnabod bod problemau macro sylweddol gyda'r system prydau ysgol am ddim fel y mae heddiw, ac mae'n gefnogol i waith sefydliadau eraill i helpu Llywodraeth Cymru i'w goresgyn.

Mae datrysiad TCC yn canolbwyntio ar fynd i'r afael yn syth bin ar lwgu disgyblion ysgolion uwchradd tlotaf Cymru, sy'n annhebygol o fod yn cyflawni eu potensial academaidd, oherwydd chwant bwyd a blinder. Cred TCC, o ystyried cyd-destun tlodi cyfoes a sut mae llwgu yn amlygu'i hun mewn ysgolion uwchradd, nad yw'r lwfans prydau ysgol am ddim bellach yn addas at y diben, a bod hon yn broblem ledled Cymru.

"Roedd llawer o ddisgyblion naill ai'n mynd heb frecwast neu yn treulio eu holl lwfans prydau ysgol am ddim yn y bore ac yna heb unrhyw beth ar ôl amser cinio."
Athro, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg

[47] Comisiynydd Plant Cymru (2018) 'Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag effaith tlodi' https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/A-Charter-for-Change-Protecting-Welsh-Children-from-the-Impact-of-Poverty.pdf t.14
[48] ibid

Brecwast am 80c y dydd	Cost am 190 diwrnod ysgol	£152 y disgybl
	Cost i 29,223 (yn fras) o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	£4,441,896
	Cost gan dybio bod 69% o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn y brecwast	£3,064,908

Mae TCC yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r lwfans prydau ysgol am ddim o 80c (yn gysylltiedig â chwyddiant) ar gyfer pob diwrnod ysgol ar gyfer pob disgybl ysgol uwchradd sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, fel ffordd uniongyrchol o leddfu eu llwgfa. Byddai disgyblion ysgolion uwchradd sydd â llawer o archwaeth a chylch heriol o ddysgu ac asesu yn gallu prynu o leiaf un eitem i ddechrau'r diwrnod a byddai'n helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni nifer o'i hamcanion a'i huchelgeisiau polisi presennol, am gost isel.

Sefydlwyd, er gwaethaf derbyn y lwfans prydau ysgol am ddim, bod llawer o ddisgyblion - yn ddealladwy iawn - yn ei chael yn anodd canolbwyntio ar unrhyw beth heblaw ar eu stumogau gwag. Mae hyn yn golygu nad yw'r buddsoddiad cyfredol gan Lywodraeth Cymru mewn darparu prydau ysgol am ddim i oddeutu 29,223 o blant ysgol uwchradd yn cyflawni ei amcanion nac yn sicrhau canlyniadau effeithiol, gan fod plant yn rhy llwglyd i ddysgu. Byddai buddsoddiad bach i hwyluso prynu brecwast yn diogelu'r gwariant gwreiddiol hwn.

Mae TCC yn cyfrifo bod oddeutu 29,223 o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[49] O ystyried bod 190 diwrnod ysgol bob blwyddyn, byddai darparu 80c i bob disgybl am frecwast yn costio uchafswm o £4,441,896.

Ar hyn o bryd, dim ond 69%[50] o ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n eu cymryd. Yn seiliedig ar y gyfradd hon o 69%, mae TCC yn cyfrifo mai cyfanswm y gost yn fras fyddai £3,064,908.[51]

Mae TCC yn sylweddoli bod yna lawer o ffactorau demograffig, daearyddol ac ariannol sy'n effeithio ar y ffordd y rheolir y diwrnod ysgol ledled Cymru. Mae cyflwyno unrhyw newid ar raddfa genedlaethol yn gofyn am weithio trwy gymhlethdodau ymarferol posibl. Er mwyn goresgyn un o'r rhwystrau mwyaf i gyflwyno menter o'r fath, mae TCC yn awgrymu y dylai'r lwfans brecwast 80c fod ar gael i ddisgyblion tan ddiwedd egwyl y bore ac yna ei dynnu o'r system (fel y mae yng Ngorllewin Lothian, awdurdod lleol yn yr Alban sydd eisoes wedi

[49] Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar ystadegau gan StatsCymru (Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl ysgol, 2019), a restrodd 26,145 o ddisgyblion ysgolion uwchradd fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (a deallir bod hyn yn golygu 'cymwys', yn hytrach na 'cymwys ac yn hawlio'). Yn ogystal roedd 2,085 disgybl mewn ysgolion arbennig yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim – a 3,050 mewn ysgolion canol. Mae data ychwanegol o StatsCymru yn dangos bod 53% o ddisgyblion Anghenion Addysg Arbennig o fewn yr oedran uwchradd a 65% o'r disgyblion canol o fewn yr oedran uwchradd, felly rydym wedi cynnwys y ganran yma o ddisgyblion yn y ddau grwp. Mae'r cyfanswm felly yn 29,223.
[50] Cynghrair Tlodi Bwyd De Cymru (2019), Food Poverty in South Wales: A call to action. p18.
[51] Yn amlwg, mae'r gost bosibl yn lleihau wrth i'r nifer sy'n manteisio ostwng. Felly, byddai 50% yn manteisio yn costio oddeutu £2,220,948.

gweithredu ateb tebyg). Byddai hyn yn darparu ar gyfer yr ysgolion uwchradd hynny nad yw eu ffreuturau'n agor i frecwast ar hyn o bryd, a'r rhai lle nad yw cludiant ysgol yn cyrraedd tan ychydig cyn i'r cofrestru ddechrau. Byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai angen adnodd goruchwylio ychwanegol nac unrhyw seilwaith ychwanegol.

Byddai gwneud y buddsoddiad cymedrol hwn nid yn unig yn diogelu'r buddsoddiad prydau ysgol am ddim presennol ond hefyd yn cefnogi polisïau ac ymrwymiadau cyfredol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2004, gan ymrwymo ei hun i'r egwyddor bod gan blant a phobl ifanc yr hawliau dynol sylfaenol canlynol: yr hawl i fywyd, goroesi a datblygu (Erthygl 6), yr hawl i gael gafael ar fwyd digonol, maethlon, dŵr glân, a'r gofal iechyd gorau posibl (Erthygl 24) a'r hawl i safon byw ddigonol (Erthygl 27). Er mai rhieni a gwarcheidwaid sydd â'r prif gyfrifoldeb i ddarparu ar gyfer anghenion materol y plentyn, mae gan 'y Wladwriaeth' - darllenwch Gymru - gyfrifoldeb i gynorthwyo rhieni a gwarcheidwaid i liniaru tlodi lle bo angen.

Byddai cynyddu'r lwfans prydau ysgol am ddim hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddatblygu datrysiad mwy uchelgeisiol a dyfeisgar i dlodi. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn parhau i ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru, gan osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a enwir, gan gynnwys awdurdodau lleol, i osod amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Mae cynnig TCC yn cynnig llwybr rhad a chyflym i helpu i weithredu ei Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer Cymru 2015, yn enwedig ei drydydd amcan i 'leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd trwy wella canlyniadau'r tlotaf' .

Yn y pen draw, mae hwn yn gyfle i leddfu effeithiau gwaethaf llwgu yn ein hysgolion uwchradd a lleihau'r achosion o athrawon yn cynorthwyo'r llywodraeth trwy wario'r arian y maent wedi gweithio'n galed i'w ennill ar geisio lleihau llwgu yn yr ystafell ddosbarth. Byddai'n golygu y byddai plant yn llai llwglyd, hapusach, a byddai eu perfformiad academaidd, dros amser, yn gwella. Yn hanfodol, byddai'n cefnogi y cwricwlwm newydd sydd ar droed yng Nghymru, gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan lawn yn y dull newydd, cyffrous ac arloesol hwn o ddysgu. Mae disgyblion yn fwy tebygol o fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog ac unigolion iach, hyderus os nad ydyn nhw'n llwgu.

ATODIAD
HANES Y LWFANS PRYDAU YSGOL AM DDIM [52]

Deddf Forster 1870: daeth addysg elfennol yn orfodol gyda chyflwyno'r ddeddf hon. Ond roedd cannoedd ar filoedd o blant tlawd yn cyrraedd yr ysgol yn rheolaidd heb eu bwydo'n ddigonol ac yn methu ag elwa o'r addysg hon. Fe wnaeth mesurau dyngarol i liniaru dioddefaint, llawer ohonynt wedi'u hysgogi gan athrawon oedd yn defnyddio arian personol, ledaenu trwy'r wlad.

Deddf Addysg (Darparu Prydau) 1906: roedd y ddeddf hon yn caniatáu i Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) ddarparu prydau bwyd am ddim i blant ysgol elfennol, wedi'u hariannu allan o ardrethi lleol. Dadleuodd Robert Morant, Ysgrifennydd Parhaol y Bwrdd Addysg, y byddai hyn yn gwella gallu plant tlawd i dderbyn addysg weddus, ac y byddai gweithlu wedi'i addysgu'n well ac yn ehangach yn helpu'r DU i gystadlu â gwledydd datblygedig yn dechnegol, fel yr Almaen a'r UD.

Deddf Addysg 1944: roedd y ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob AALl ddarparu pryd bwyd ganol dydd ac yn gosod canllawiau maethol i'w dilyn. Yn fuan, barnwyd bod hyn yn rhy gostus a cheisiodd llywodraethau dilynol gwtogi ar wariant. Ym 1949, caniataodd y llywodraeth Lafur i AALl godi 6c. y pryd wrth barhau i ddarparu rhai prydau bwyd am ddim i blant ysgol difreintiedig; yn y 1950au a'r 1960au roedd tua 50% o blant ysgol - elfennol ac uwchradd - yn cymryd prydau bwyd maethlon ganol dydd gyda 5 i 10% yn eu cael am ddim. Roedd dros 90% yn cael llaeth am ddim bob dydd.

O'r 1980au ymlaen: Ers 1980, mae llywodraethau olynol wedi cilio oddi wrth ymdrechion canol y ganrif i sicrhau bwydlenni ysgol sy'n gytbwys o ran maeth fel rhan o'r 'wladwriaeth nani', gan ddewis rhoi rheolaeth i rieni dros ddeiet eu plant. Erbyn dechrau'r 1980au, dim ond 50% o ddisgyblion ysgolion uwchradd oedd yn cael prydau bwyd yn yr ysgol naill ai am dâl, neu'n rhad ac am ddim. Diddymodd Deddf Addysg 1980 y rhwymedigaeth i ddarparu prydau ysgol ac eithrio i ddisgyblion yr oedd eu rhieni'n derbyn budd-dal atodol neu ychwanegiad incwm teulu ac ystyrid bod y math o bryd bwyd a ddarperid yn rhad ac am ddim yn addas hefyd i'r disgyblion oedd yn talu, pe bai'r AALl yn ymestyn bwydo y tu hwnt i'r isafswm statudol hwn.

[52] Alan Finch (2019) The provision of school meals since 1906: progress or a recipe for disaster? 14 Ionawr